

# Y Pwyllgor Menter a Busnes

---

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd**

---

Dyddiad:

**Dydd Mercher, 19 Chwefror 2014**

---

Amser:

**09.00**

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Siân Phipps**

Clerc y Pwyllgor

029 2089 8582

[Pwyllgor.Menter@cymru.gov.uk](mailto:Pwyllgor.Menter@cymru.gov.uk)

---

## Agenda

---

### CYFARFOD FFURFIOL (PREIFAT) (09.00 – 09.40)

#### 1 Trafod y Flaenraglen Waith (Tudalennau 1 – 10)

Dogfennau ategol:

**EBC(4)–05–14(p.1)** – Blaenraglen waith

#### 2 Craffu ar y Gymraeg (Tudalennau 11 – 17)

Dogfennau ategol:

**EBC(4)–05–14(p.2)** – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol at y Prif Weinidog yn ymwneud ag adolygiad o'r polisi iaith Gymraeg

**EBC(4)–05–14(p.3)** – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes yn ymwneud â'r adolygiad o'r polisi iaith Gymraeg

### **3 Gwobrau Ysbrydoli Cymru**

**EGWYL (09.40–09.45)**

**CYFARFOD CYHOEDDUS FFURFIOL (09.45)**

### **4 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon**

**5 Ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o hyrwyddo masnach a mewnfuddsoddi – sesiwn dystiolaeth 10 (09.45–10.45) (Tudalennau 18 – 29)**

**Witnesses:**

- **Yr Athro Gareth Morgan**, Cadeirydd y Panel Sector Gwyddorau Bywyd
- **David Williams**, Cadeirydd y Panel Sector Ynni a'r Amgylchedd

**Dogfennau ategol:**

**Papur preifat** (Papur Briffio'r Aelodau ar gyfer Eitem 5)

**Egwyl (10.45–11.00)**

**6 Adroddiad cynnydd chwe mis a chyllideb alldro 2012–13 (11.00–12.30) (Tudalennau 30 – 106)**

**Tystion:**

- **Edwina Hart AC**, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru
- **James Price**, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru
- **Rob Hunter**, Cyfarwyddwr, Cyllid a Pherfformiad, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau ategol:**

**Papur preifat** (Papur Briffio'r Aelodau ar gyfer Eitem 6)

**EBC(4)–05–14(p.4)** – Craffu ar y gyllideb – llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog dyddiedig 10 Rhagfyr 2013

**EBC(4)–05–14(p.5)** – Craffu ar y Gyllideb – ymateb y Gweinidog dyddiedig 14 Ionawr 2014

**EBC(4)-05-14(p.6)** – Craffu ar y Gyllideb – llythyr arall gan y Gweinidog at y Cadeirydd dyddiedig 4 Chwefror 2014

**EBC(4)-05-14(p.7)** – Craffu ar y Gyllideb – Memorandwm 2013– 2014

**EBC(4)-05-14(p.8)** – Nodyn am y newidiadau yn y dyraniadau o'u cymharu â'r Gyllideb atodol gyntaf

**EBC(4)-38-13(p.6)** – Diweddariadau chwe mis – Blaenoriaethau ar gyfer y Rheilffyrdd, yr M4, Blaenoriaethau ac Ymrwymadau Trafnidiaeth

## **7 Papurau i'w nodi (Tudalennau 107 – 120)**

Dogfennau ategol:

**EBC(4)-05-14(p.9)** – Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog yn ymwneud â WOMEX dyddiedig 17 Ionawr 2014

**EBC(4)-05-14(p.10)** – Ymateb y Gweinidog i'r llythyr yn ymwneud â WOMEX dyddiedig 27 Ionawr 2014

**EBC(4)-05-14(p.11)** – TEN-T – Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog dyddiedig 24 Ionawr 2014

**EBC(4)-05-14(p.12)** – TEN-T – Ymateb y Gweinidog dyddiedig 5 Chwefror 2014

**EBC(4)-05-14(p.13)** – TEN-T – Llythyr gan Herald Ruijters dyddiedig 06.02.14

**EBC(4)-05-14(p.14)** – Hanes diweddar y berthynas rhwng Masnach a Buddsoddi y DU a Llywodraeth Cymru

**EBC(4)-05-14(p.15)** – TEN-T – Llythyr gan y Cadeirydd i Herald Ruijters dyddiedig 24 Ionawr 2014

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**Ôl-drafodaeth breifat (12.30–12.45)**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Barnwyd nad yw'r papur hwn yn addas i'w gyhoeddi yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Y Pwyllgor Menter a Busnes  
Enterprise and Business Committee

Edwina Hart AM  
Minister for Economy, Science and Transport  
Welsh Government

10 December 2013

Dear Edwina

Budget Scrutiny session 19 February 2014

Thank you for agreeing to attend the Committee on 19 February from 11.00 to 12.30. The purpose of the session is for the Committee to:

- consider the six-monthly update which you agreed to provide for us in response to our recommendations in our scrutiny of your budget proposals for 2014-15;
- look at out-turn and performance for the 2012-13 financial year compared with the budget plans; and
- scrutinise the in-year position for 2013-14 following publication of the second Supplementary Budget to explore any changes against the first supplementary budget 2013-14 and the decisions behind those changes.

In order to help your officials prepare papers for the session, we would like to see information on all of the objectives set and outcomes achieved by your Department in 2012-13; the associated resource allocations; how performance was evaluated; and details of any transfers made. This should include transport outcomes even though these were not within your portfolio at the time.

Bae Caerdydd  
Cardiff Bay  
CF99 1NA

Clerc/Clerk: Dr Siân Phipps, Ffôn /Tel: 029 2089 8582  
Email: [enterprise.committee@wales.gov.uk](mailto:enterprise.committee@wales.gov.uk)

We are particularly interested in the following areas:

- the promotion of trade and inward investment
- each of the nine priority sectors
- the repayable business finance scheme
- Enterprise Zones
- support for micro-enterprises
- social enterprise support
- the Wales Economic Growth Fund
- sustainable and integrated transport, including walking and cycling/active travel; public transport (bus, rail and community transport, including concessionary fares); and regional transport planning.

For each of those areas we should like to receive the following information:

- resources allocated in the Final Budget 2012-13 and which outcomes and outputs those resources were expected to achieve
- details of any in-year changes to those allocations and explanations for the change
- actual expenditure in 2012-13, presented on a comparable basis to the budget allocations, and explanations for any differences compared with budget allocations
- outputs and outcomes achieved as a result of this expenditure and how performance was evaluated
- how this influenced or informed budget allocations in each area for the 2013-14 and 2014-15 financial years.

Members would also like to receive detail on Finance Wales; how the Department has used external sources of finance such as EU funding, the European Investment Bank and the Green Investment Bank alongside its own resources; and how the department contributes financially to the Welsh Government's cross-departmental commitments relating to poverty, sustainable development and the Welsh language.

We would be grateful to receive your paper by 5 February 2014. If there is relevant information in terms of changes in allocations relating to the above areas in the second supplementary budget in February 2014 perhaps that could be provided in a separate paper once it is laid before the Assembly.

Many thanks for assisting us in our work.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Nick', with a horizontal line underneath.

Nick Ramsay AM  
Chair, Enterprise and Business Committee



Eich cyf/Your ref  
Ein cvf/Our ref

Nick Ramsay AM  
Chair, Enterprise and Business Committee

14 January 2014

Dear Nick

### **Budget Scrutiny – 19 February 2014**

Thank you for your letter dated 10 December detailing the agenda for the budget scrutiny session. Whilst I am happy to provide the additional information requested at the 17 October Committee, I am concerned about the additional level of detail requested to support the February session.

For the October Committee I provided the six monthly update for Transport for 2013-14 and volunteered to also provide a similar update on a six monthly basis for Economy and Science.

The evaluation in terms of outcomes against the objectives in the Programme for Government will be reported in the Annual Statement for 2013-14 to be published in June 2014. The annual outturn report 2012-13 for Welsh Government is published at a Main Expenditure Group level for the Finance Committee.

I am happy to provide detailed information and attend additional sessions for specific strategic issues of interest to the Committee. However, I am concerned that providing detailed historic information across the portfolio will create a significant administrative burden in preparing the evidence paper. To assist the Enterprise and Business Committee I will provide some additional information but this will be limited to analysis at Action level for 2012-13 and high level objectives restated for the portfolio changes.

I look forward to your continued support.

Edwina Hart MBE CStJ AC / AM  
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth  
Minister for Economy, Science and Transport



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref

4 February 2014

Dear Nick

I refer to the Committee's request for clarification of the information that will be provided for the scrutiny session on 19 February.

The Supplementary budget motion is tabled on 11 February after the deadline of 5 February to provide the evidence paper. I will provide a short paper to explain the changes detailed in the 2013-14 Second Supplementary Budget following 11 February.

A six monthly update for Economy and Science will be provided in the same format as the Transport six monthly update which has already been considered at the 17 October 2013 scrutiny session. My letter dated 9 October 2013 provided an update on transport matters within my portfolio.

I look forward to discussing the strategic developments within my portfolio with the Committee.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Edwina Hart'.

## Memorandwm am yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (EST)

### Ail Gyllideb Atodol 2013-14

#### Y Pwyllgor Menter a Busnes - 19 Chwefror 2014

---

##### 1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn ymateb i geisiadau penodol y Pwyllgor am wybodaeth ariannol:

- Gwybodaeth ychwanegol a diweddariad chwemisol yr Economi a Gwyddoniaeth 2013-14 y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor yn dilyn y broses o graffu Cyllideb Ddrafft 2014-15;
- Alldro a pherfformiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13 o'i gymharu gyda chynlluniau'r gyllideb;
- Gwybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gan y Pwyllgor ar gyfer cyllidebau allweddol; a'r
- Sefyllfa yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2013-14 ar ôl cyhoeddi Ail gyllideb Atodol 2013-14 a'r penderfyniadau y seiliwyd y newidiadau hynny arnynt.

Ar ôl cyflwyno'r Ail Gyllideb Atodol ar 11 Chwefror 2014, rhoddir nodyn i'r Pwyllgor er mwyn esbonio'r newidiadau i'r dyraniadau o'i chymharu gyda'r gyllideb Atodol Gyntaf.

##### 2.0 Diweddariad Chwemisol ac Ymateb i Argymhellion y Pwyllgor

##### 2.1 Y Rhaglen Lywodraethu

Darparwyd y diweddariad chwemisol am y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer Trafnidiaeth i'r sesiwn graffu ar 17 Hydref 2013. Mae'r diweddariad ar gyfer yr Economi a Gwyddoniaeth wedi ei atodi fel Atodiad A. Seiliwyd y diweddariad hwn, sy'n cynnwys datblygiadau cyfredol, ar y sefyllfa ym mis Medi 2013. Mae'n nodi rhai o fanylion ein hymrwymadau allweddol rydym yn arwain arnynt yn y Rhaglen Lywodraethu, ynghyd â sylwadau amlinellol. Rydym yn cyfrannu hefyd at nifer o ymrwymadau allweddol eraill gan gynnwys trechu tlodi a datblygu cynaliadwy. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i baratoi adroddiad diwedd blwyddyn y Rhaglen Lywodraethu. Bydd hwn yn rhoi diweddariad llawn am y cynnydd a sicrhawyd yn erbyn amcanion a chanlyniadau EST, ac fe'i cyhoeddir ym mis Mehefin.

Rydym yn parhau i sicrhau cynnydd da yn erbyn ein hamcanion yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae twf a swyddi cynaliadwy wrth wraidd ein hamcanion, a chyflawni mewn perthynas â'r rhain yw'r brif flaenoriaeth. Rydym yn parhau i feithrin y perthnasoedd cadarn rhyngom ni a'r gymuned fusnes a phartneriaid cymdeithasol, er mwyn deall anghenion busnes a chyfrannu at ein polisi a'n

camau gweithredu. Ar yr un pryd, rydym yn gweithio i sicrhau bod y seilwaith gofynnol yn bodoli er mwyn cynorthwyo twf economaidd trwy ddarparu gwasanaethau a seilwaith Trafnidiaeth gwell, ynghyd â'r broses barhaus o gyflwyno Cyflymu Cymru.

## 2.2 Mesur Perfformiad

Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad mewn perthynas ag allbynnau a chanlyniadau. Nodir y ffigurau diweddaraf ar gyfer y dangosyddion allweddol sy'n ymwneud â swyddi a thwf yn y tabl isod, ac maent yn adlewyrchu'r sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2013:

Meysydd Busnes	Swyddi a Grëwyd	Swyddi a Ddiogelwyd	Swyddi a Gynorthwywyd	Buddsoddiad a Ysgogwyd £m
Sectorau	758	1,501	6,177	58
Entrepreneuriaeth	3,158	1,121	0	
Gwyddoniaeth ac Arloesedd	242	492	371	31
Mynediad at Gyllid (gan gynnwys y Gronfa Fuddsoddi Sengl, Cyllid Cymru)	1,034	909	493	46
Eraill	4	590	135	
<b>Cyfanswm</b>	<b>5,196</b>	<b>4,613</b>	<b>7,176</b>	<b>135</b>

Mae'r ffigurau yn y tabl uchod yn cynrychioli'r sefyllfa a gofnodwyd ar ddiwedd Chwarter 3 ar gyfer meysydd busnes allweddol. Mae angen nodi'r pwyntiau canlynol mewn perthynas â'r ffigurau hyn:

- Mae EST yn casglu data am ystod eang o allbynnau sy'n cynnwys gweithgareddau a chanlyniadau. O ganlyniad i natur eang yr allbynnau hyn, mae'r ffigurau a ddarparir yn y tabl uchod yn ymwneud â swyddi a buddsoddiad a ysgogwyd yn unig, gan mai'r rhain yw'r prif amcanion ar gyfer yr Adran ac mae cryn dipyn o weithgarwch yr Adran yn ceisio cyfrannu at y ffigurau hyn.
- Caiff y ffigurau hyn eu cymryd ar ddiwedd chwarter tri, ac ni ddylid ystyried eu bod yn cynrychioli dilyniant llinol tuag at y cyfansymiau cyffredinol a fydd yn cael eu cyflawni ar ddiwedd y flwyddyn. Yn hanesyddol, gwelir gwelliant sylweddol mewn allbynnau yn ystod chwarter pedwar, pan gaiff prosiectau eu cwblhau a phan fydd modd hawlio'r allbynnau cysylltiedig. Fel arfer, caiff y gwaith o gasglu a dilysu'r allbynnau terfynol ar ddiwedd y flwyddyn ei gwblhau erbyn diwedd mis Mai.
- Mae'r ffigurau Sector uchod yn cynnwys allbynnau o gynlluniau megis Cronfa Twf Economaidd Cymru, Mewnffuddsoddi ac RBF, a gyflawnir gan dimau Sector. Darparir diweddariadau manwl am y cynlluniau hyn yn nes ymlaen yn y papur hwn.

O ganlyniad i faterion yn ymwneud ag amseru, ni cheir cydberthyniad uniongyrchol rhwng y gwariant yn ystod y flwyddyn a'r allbynnau a gyflawnir, sy'n golygu ei bod yn anodd ffurfio cymhariaeth ystyrlon hanner ffordd drwy'r flwyddyn. Mae'n fwy priodol darparu diweddariad blynyddol ar lefel weithredu.

### **2.3 Swyddi Mewnfuddsoddi**

Fel sydd wedi'i drafod mewn pwyllgorau eisoes, mae bwlch rhwng cytuno ar fewnfuddsoddiad a rhoi'r prosiect "ar waith", gyda'r buddsoddi a'r gyflogaeth gysylltiedig. Yn y flwyddyn ariannol hon, hyd at fis Rhagfyr 2013, gwelwyd o weithgaredd blynyddoedd blaenorol FDI bod cyfanswm o 1,672 o swyddi wedi'u cynorthwyo. Y targed ar gyfer 2013-14 yw 8,500.

### **2.4 Gwerthusiadau**

Er mwyn cefnogi ein penderfyniadau ynghylch y gyllideb, mae rhestr o'r gwerthusiadau a gwblhawyd ac y maent wedi cychwyn ers 2013 wedi ei atodi yn Atodiad B, sy'n dangos ehangder y gweithgarwch gwerthuso a gyflawnwyd yn ddiweddar. Er bod rôl i gomisiynu gwerthusiadau allanol o bolisi a gwaith cyflawni, mae'n bwysig ein bod yn cynnal ffocws ar werth am arian ac yn dewis y dull gweithredu gorau tuag at sicrhau cyngor arbenigol a dysgu. Wrth ystyried y blaenoriaethau strategol ar gyfer swyddi a thwf, mae rôl y byrddau annibynnol megis Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru a'r Paneli Sector, er enghraifft, yn bwysig hefyd. Mae cynnwys y sector preifat a rhanddeiliaid allweddol eraill yn gallu helpu nodi blaenoriaethau i'w gweithredu, gan gynnig cyngor ynghylch ble gellir gwneud gwelliannau.

Yn ogystal, mae'r Rhaglen Lywodraethu a'r adroddiadau blynyddol yn cynrychioli dull gweithredu priodol tuag at asesu cyflawniad yn erbyn ymrwymïadau a wnaethpwyd gennym. Mae'n nodi:

- Camau gweithredu allweddol ar gyfer y Llywodraeth
- Y dystiolaeth a ddefnyddir gennym er mwyn barnu a yw'r camau gweithredu yn debygol o gyflawni; a'r
- Dangosyddion a ddefnyddir gennym er mwyn mesur cynnydd o ran yr heriau hirdymor.

### **3.0 Alldro a Pherfformiad ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2012-13**

**3.1** Darparir yr alldro o'i gymharu gyda chynlluniau'r gyllideb ar lefel Camau Gweithredu yn Atodiad C. Mae wedi cael ei ailddatgan ar ffurf y tablau a gyhoeddwyd er mwyn cynnwys Trafnidiaeth, a oedd ym mhorthfolio'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau. Rheolwyd y gwariant yn 2012-13 ar gyfer blaenoriaethau Adran yn y portffolios blaenorol.



Cyhoeddwyd y diweddariad blynyddol am gyflawniadau'r Rhaglen Lywodraethu ym mis Mehefin 2013 ac mae modd troi ato ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/?lang=cy>

Yn 2012-13, roedd cyfanswm y swyddi a gefnogwyd yn dod i 17,173, gan greu 7,637 o swyddi, diogelu 7,661 o swyddi a chynorthwyo 1,875 o swyddi. Mae hyn yn cymharu â tharged rheoli o 18,401.

Gosodir targedau gyda'r potensial o gyflymu prosiectau sydd ar y gweill. Mae'r perfformiad go iawn yn adlewyrchu'r natur ymatebol wrth ymyrryd er mwyn cynorthwyo'r economi yn ystod y flwyddyn ariannol. Gwelwyd gostyngiad yn nifer y swyddi a grëwyd, yn bennaf o ganlyniad i lithriad ac amodau economaidd ar yr adeg honno. Ar y cyfan, llwyddwyd i gasglu'r allbynnau gan brosiectau a gafodd eu hoedi yn ystod 2012-13, yn gynnar yn 2013-14.

#### **4.0 Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd amdani gan y Pwyllgor ynghylch Cyllidebau Allweddol**

Mae cyllidebau ar gyfer yr Adran yn cyd-fynd â chynlluniau cyflawni a baratowyd o ganlyniad i'r adolygiad manwl blynyddol o gynlluniau gwariant. O ystyried yr amgylchiadau economaidd presennol, mae cyllidebau dan bwysau cynyddol ac mae prosiectau yn cael eu monitro yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu canlyniadau. Pan welir nad ydynt yn cyflawni fel y disgwyl, caiff yr adnodd ei ailneilltuo i ymyriadau a fydd yn sicrhau swyddi a thwf. Caiff yr ystyriaethau hyn eu cynnwys yn y cylch cynllunio busnes ac maent yn cyfrannu at y penderfyniadau a wneir ynghylch y dyraniadau terfynol a'r targed ar gyfer pob maes busnes yn y dyfodol.

Trwy gyfrwng y broses ragamcanu fisol, byddwn yn asesu'r cynnydd yn barhaus, gan ail flaenoriaethu'r gyllideb ar sail blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg a pherfformiad pob prosiect.

#### **4.1 Hyrwyddo Masnach a Mewnfuddsoddi**

Ar ôl ad-drefnu Busnes Rhyngwladol Cymru, cafodd gweithgarwch masnach a buddsoddi ei gynnwys mewn datrysiadau busnes a phrosiectau mawr sy'n cynorthwyo cyflawni sectoraidd. Mae Masnach a Mewnfuddsoddi wedi bod yn is-adran ar wahân er 1 Hydref 2012.

Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2012-13, roedd y gyllideb ar gyfer Masnach a Mewnfuddsoddi yn rhan o Linell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygiadau ar y Gweill. Roedd y Llinell Wariant hon yn y Gyllideb yn cynnwys gweithgareddau er mwyn cynorthwyo'r sectorau blaenoriaeth a phrosiectau mawr. Swm y gyllideb ddangosol ar gyfer gweithgareddau Masnach a Mewnfuddsoddi oedd £1.737m a'r sefyllfa o ran alldro oedd £0.658m. Roedd y diffyg o ganlyniad i'r amser arwain wrth ddatblygu'r prosiectau ar y gweill a sefydlu'r tîm.

Roedd y swyddi mewnfuddsoddi uniongyrchol tramor i Gymru a gyhoeddwyd gan Fasnach a Buddsoddi y DU yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2012-13 yn

rhoi cyfanswm rhagolwg o ychydig dros 7,000 o swyddi, gwelliant arwyddocaol o'i gymharu â'r perfformiad a welwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yn yr un modd, gwelwyd nifer y prosiectau i Gymru a adlewyrchwyd yn adroddiad blynyddol Masnach a Buddsoddi y DU yn tyfu o 23 yn 2011-12 i 67 yn 2012-13.

Mae marchnata yn hanfodol ar gyfer masnach a mewnfuddsoddi. Mae ymgyrch Just Ask Wales yn canolbwyntio ar sectorau a'i nod yw ysgogi buddsoddiad ac ymholiadau newydd er mwyn helpu creu cyfleoedd ar gyfer swyddi yng Nghymru yn y dyfodol a chynorthwyo'r ffocws strategol ar Swyddi a Thwf. Mae modd gweld gwybodaeth bellach trwy droi at:

<http://www.justask.wales.com/>

## 4.2 Sectorau Blaenoriaeth

Ar gyfer 2012-13, caiff y Gyllideb Derfynol ei chymharu gyda'r gwariant go iawn ar gyfer y sectorau blaenoriaeth yn Atodiad D. At ei gilydd, roedd y gyllideb yn £63.1m yn erbyn alldro o £60.8m.

Mae unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â'r rheidrwydd i'm Hadran barhau i fod yn hyblyg wrth fodloni anghenion yr economi sy'n newid, a chynnig y cymorth cywir i fusnesau ar yr adeg gywir. Roedd yr amrywiadau yn y gyllideb o ganlyniad i lithriad rhai prosiectau i flynyddoedd ariannol yn y dyfodol ac wrth i gwmnïau ailosod eu hamcanestyniadau ariannol. Ar draws y sectorau, caiff hyn ei wrthbwysu ar gyfer cyfleoedd newydd a phrosiectau eraill sy'n cael eu dwyn ymlaen.

Pennir amcanion y sectorau gan y paneli sector ac fe'u cyhoeddwyd yn y cynllun cyflawni sectorau sydd ar gael yn:

<http://wales.gov.uk/docs/det/publications/130125deliveryplancy.pdf>.

Yn ystod y flwyddyn, adroddodd y sectorau bod 1,306 o swyddi wedi eu creu a bod 3,410 pellach wedi eu diogelu. Yn ogystal, cynorthwywyd 1,875 o swyddi. Llwyddodd cyflawniad y sector i ddenu gwerth dros £95m o fuddsoddiad i economi Cymru o sectorau cyhoeddus a phreifat allanol hefyd.

O ganlyniad i hyd a chymhlethdod rhai prosiectau, bydd y gweithgarwch yn aml yn ymestyn dros nifer o flynyddoedd a bydd y gwariant a'r cyflawniad yn digwydd yn ystod gwahanol flynyddoedd ariannol.

## 4.3 Cynllun Ad-dalu Cyllid Busnes

Ar 31 Mawrth 2013, gwnaethpwyd gwerth £3.2m o gynigion cyllid busnes ad-daladwy.

Mae'r gyllideb yn parhau i fod yn hyblyg a chaiff busnesau eu cynorthwyo gyda chyllid busnes ad-daladwy pan fo hynny'n briodol. Mae pob achos yn destun arfarniad ac yn cael ei asesu o ran ei werth am arian a'i allu i gynnal swyddi a thwf.

#### 4.4 Ardaloedd Menter

Mae datblygiad yr Ardaloedd Menter yn drawsbynciol ac mae cyflawni her y polisi yn gofyn am gysoni adnoddau ar draws Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol er mwyn creu swyddi a thwf o fewn a thu hwnt i'r Ardaloedd Menter.

Yn 2012-13, bu Byrddau'r Ardaloedd Menter yn datblygu eu cynlluniau ar gyfer yr ardaloedd ac roedd y gwariant ar gyfer y flwyddyn yn werth £11.4m, a ddefnyddiwyd ar gyfer amrediad o weithgareddau megis astudiaethau dichonoldeb, cynllun ardrethi busnes, prynu tir i'w ddatblygu, adfer safleoedd a gwaith cyfalaf arall. Mae'r datblygiadau hyn wedi cael eu cynnwys mewn datganiadau rheolaidd a wnaethpwyd mewn Cyfarfodydd Llawn. Mae adroddiad Cynnydd Ardaloedd Menter a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013 yn cynnwys rhagor o wybodaeth:

[http://enterprisezones.wales.gov.uk/sites/test.enterprisezoneswales.co.uk/files/EZ\\_progress\\_update\\_281013.pdf](http://enterprisezones.wales.gov.uk/sites/test.enterprisezoneswales.co.uk/files/EZ_progress_update_281013.pdf)

Caiff y perfformiad ei olrhain yn erbyn y dangosyddion perfformiad ar gyfer Ardaloedd Menter Cymru, a gyhoeddwyd ar ddiwedd 2013. Bydd y dangosyddion hyn yn monitro ac yn olrhain y cynnydd dros y tymor hwy mewn meysydd allweddol megis swyddi, buddsoddiad, datblygu tir, cymorth busnes ac ymholiadau. Yn ogystal, cyhoeddwyd targedau rhagarweiniol ar gyfer 2014-15 ac mae modd gweld y rhain trwy droi at:

<http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/publications/welsh-gov-ezw-key-performance-indicators/?lang=cy>.

Mae gwaith a gweithgarwch cynllunio yn parhau gyda'r holl Sectorau ynghylch datblygu canlyniadau astudiaethau, argymhellion uwchgynlluniau a gwaith cyfalaf.

#### 4.5 Cymorth ar gyfer Microfentrau

Yn 2012-13, roedd cyllideb o £7.84m ar gael er mwyn cynorthwyo Microfentrau. Roedd y cyllid yn cynnwys cymorth ar gyfer gweithgareddau megis: Canolfannau Gwasanaeth Rhanbarthol, bylchau cyflenwi, Busnes Cymru, digwyddiadau ymgysylltu busnes a mentrau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol.

Ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad Microfusnesau ym mis Ionawr 2012, ailbennwyd ffocws y Gwasanaeth Canolfannau Rhanbarthol er mwyn cynnig cysyniad Siop Un Stop ar gyfer microfusnesau yng Nghymru, a lansiwyd ym mis Ionawr 2013. Mae'r gwasanaeth a ddarparir ar gael i fentrau bach a chanolig hefyd. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys cydraddoldeb, cyngor amgylcheddol ac ynghylch caffael, cymorth masnachol rhyngwladol a gwasanaeth gwybodaeth a chyfeirio ar gyfer yr holl fusnesau trwy gyfrwng rhwydwaith o 11 canolfan wedi'u lleoli ar draws Cymru. Yn ogystal, lansiwyd gwasanaeth Mentora Busnes Cymru penodedig ym mis Hydref 2013 er mwyn galluogi busnesau i

fanteisio ar gymorth mentora gan gymysgedd eang ac amrywiol o bobl fusnes profiadol.

Roedd yr Adroddiad Microfusnesau yn pwysleisio hefyd mai rôl y llywodraeth yn y dyfodol ddylai fod i hwyluso a llenwi'r bylchau pan fo'r farchnad yn methu. Mae gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector rolau allweddol wrth ddarparu cymorth gwasanaeth siop un stop Busnes Cymru.

Felly, roedd 2012-13 yn flwyddyn bontio ac ail neilltuwyd adnoddau i flaenoriaethau eraill yn ystod y flwyddyn, gydag alldro o £6.76m. Nodir yr allbynnau allweddol er mwyn cynorthwyo microfusnesau/busnesau bach a chanolig yn y tabl isod:

Allbynnau	Gwasanaeth Canolfannau Rhanbarthol Ebrill – Rhagfyr 2012	Gwasanaeth siop un stop Busnes Cymru Ionawr – Mawrth 2013	Cyfanswm
Mentrau a Gynorthwywyd	3,309	1,501	4,810
Gwybodaeth a chyfeirio	10,228	2,843	13,071
Swyddi a Grëwyd	233	169	402
Swyddi a Ddiogelwyd	288	268	556

Caiff perfformiad y ddau wasanaeth a ddarparir ei fonitro yn rheolaidd trwy gyfrwng trefniadau rheoli cyflawniad a chontractau. Yn ogystal, mae prosesau bodlonrwydd cwsmeriaid sefydledig yn bodoli. Cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol tua diwedd 2013 er mwyn paratoi ar gyfer gwerthusiad terfynol darpariaeth wedi'i hariannu gan UE ar gyfer Ennyn Diddordeb Cwsmeriaid/Busnes Cymru, a nodir manylion hwn yn Atodiad B. Cynyddwyd y targedau a'r canlyniadau ar gyfer blynyddoedd ariannol 2013-14 a 2014-15 er mwyn adlewyrchu ailgyfeiriad y gwasanaeth.

Lansiwyd y Gronfa Fenthyciadau i Ficrofusnesau ym mis Mawrth 2012, a oedd yn werth £6m. Hyd yn hyn, mae'r gronfa wedi buddsoddi dros £1m ac mae wedi creu a diogelu 284 o swyddi tan ddiwedd mis Rhagfyr.

#### 4.6 Cymorth ar gyfer Mentrau Cymdeithasol

Yn 2012-13, neilltuwyd cyllideb o £881,000 ar gyfer mentrau cymdeithasol, gydag alldro go iawn o £854,000. Roedd y cyllid yn cynnwys cymorth ar gyfer Canolfan Cydweithredol Cymru, Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru a Mynydd Du.

Yn ystod 2012-13, cynhaliwyd adolygiadau gwerth am arian ar gyfer trefniadau cyllid craidd er mwyn datblygu mentrau cymdeithasol. Roedd y canlyniadau allweddol fel a ganlyn:

- terfynu'r cyllid ar gyfer Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru ar ôl ymrwymiad 2012-13. Fodd bynnag, gwelwyd materion yn codi ynghylch hyfywedd ariannol y sefydliad, a therfynwyd y cyllid ar unwaith;
- parhau i ddarparu cyllid craidd o £259,000 ar gyfer Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru tan fis Mawrth 2015 er mwyn cynorthwyo gyda'r broses o greu a datblygu ymddiriedolaethau datblygu lleol newydd ac sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru; a
- darparu cyfnod pellach o gyllid craidd sy'n werth £106,000 ar gyfer Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, ar gyfer y tair blynedd tan fis Mawrth 2016, sy'n angenrheidiol er mwyn caniatáu'r ymgysylltu hirdymor gofynnol ar gyfer cwmnïau cymdeithasol, er mwyn iddynt ffurfio partneriaethau newid cymdeithasol a busnesau cwmnïau cymdeithasol yng Nghymru. Bydd Cwmnïau Cymdeithasol Cymru yn cael £150,000 ar gyfer prosiect peilot i ddatblygu modelau cwmnïau cymdeithasol sy'n arbenigo ym maes gofal plant a gofal cymdeithasol.

Yn ogystal, mae cyllid craidd o £350,000 am y tair blynedd o 2013 i 2015 wedi ei gadarnhau ar gyfer Canolfan Cydweithredol Cymru i ddatblygu cwmnïau cydweithredol a sefydliadau cydfuddiannol eraill yng Nghymru.

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn darparu oddeutu £500,000 ar gyfer aelodaeth a chymorth mentrau cymdeithasol arbenigol o fewn y sector mentrau cymdeithasol. Yn ogystal, mae modd i fentrau cymdeithasol fanteisio ar gymorth cyngor busnes sydd ar gael trwy'r Adran. Caiff canlyniadau ac allbynnau eu monitro yn erbyn y llythyr cynnig grant yn ystod cyfarfodydd chwarterol gyda'r sefydliadau.

Gallai'r dyraniadau o fewn y gyllideb newid yn dilyn adroddiad Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru dan Gadeiryddiaeth Athro Andrew Davies. Cylch gwaith y Comisiwn oedd gwneud argymhellion ynghylch tyfu a datblygu'r economi gydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru er mwyn creu swyddi a chyfoeth.

Yn dilyn y penderfyniad i derfynu'r cyllid ar gyfer Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, er mwyn parhau i ddangos cefnogaeth ar gyfer y sector mentrau cymdeithasol, cytunodd y Gweinidog y byddai llais dros fentrau cymdeithasol yn parhau i gael ei gynorthwyo. Mae Adolygiad wedi cychwyn, a gynhelir gan Robert Lloyd Griffiths (Cadeirydd Bwrdd Strategol Busnes Cymru a Chyfarwyddwr (Cymru) Sefydliad y Cyfarwyddwyr), er mwyn rhoi cyngor am egwyddorion a rôl wedi'i ddiweddarau ac ynghylch a ddylid cynnwys y swyddogaeth ddiwygiedig hon o fewn adain newydd sefydliad cynnal. Yn ogystal, gallai argymhellion y comisiwn lywio cyfeiriad y cymorth hwn yn y dyfodol.

## 4.7 Cronfa Twf Economaidd Cymru

Yn 2012-13, swm y gyllideb a neilltuwyd ar gyfer Cronfa Twf Economaidd Cymru oedd £30m. Gan ymateb i lefel uchel y diddordeb a ddangoswyd gan y gymuned fusnes, dyblwyd y swm gwreiddiol a neilltuwyd, sef £15m. Gwnaeth y gronfa ymrwymadau a oedd yn werth oddeutu £31m i 118 o brosiectau, gyda'r potensial y byddai 3,400 o swyddi yn cael eu creu/diogelu. Ar sail gwerth am arian, y gost gyfartalog fesul swydd oedd £9,000.

Hyd yn hyn, mae'r gronfa wedi gwario dros £21 miliwn. Defnyddiwyd y cronfeydd a oedd yn weddill ar gyfer cymorth busnes ehangach. Roedd Cronfa Twf Economaidd Cymru 1 yn becyn ysgogi economaidd gyda chyfyngiad amser, a oedd yn ceisio dwyn prosiectau yn eu blaen y byddai modd iddynt ddiogelu a chreu swyddi, gan fanteisio i'r eithaf ar y potensial buddsoddi mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd. O ganlyniad i'r amodau economaidd, ni wnaeth nifer o'r prosiectau symud yn eu blaen neu fe'u gwelwyd yn symud yn eu blaen ar raddfa lai. Ar sail gwerth am arian, mae'r gost gyfartalog fesul swydd yn parhau i fod yn £9,000.

Yr allbynnau allweddol ar gyfer y gronfa hon yw'r swyddi sy'n cael eu creu a/neu eu diogelu. Hyd yn hyn, mae nifer go iawn y swyddi a gafodd eu creu neu eu diogelu ychydig dros 2,300, a bydd oddeutu 180 o swyddi ychwanegol yn cael eu creu yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddilynol. Bwriedir cynnal gwerthusiad ffurfiol o Gronfa Twf Economaidd Cymru 1 yn gynnar yn ystod 2014-15.

Yn dilyn llwyddiant y gronfa, ac er mwyn cydnabod yr ansicrwydd economaidd sy'n parhau, lansiwyd Cronfa Twf Economaidd Cymru 2 sy'n werth £30m, ac y mae ganddi'r potensial i greu a diogelu hyd at 3,000 o swyddi. Caiff y cyllid ei neilltuo fel a ganlyn:

- 2013-14 £10m: er mwyn ystyried prosiectau llai y mae angen grant o rhwng £50,000 a £100,000 arnynt.
- 2014-15 £20m: er mwyn cynorthwyo prosiectau mwy, y mae angen grant o dros £100,000 arnynt.

Mae'r holl gynigion wedi cael eu gwneud nawr dan gam cyntaf y cynllun, a gwelwyd y canlyniadau canlynol: 124 o gynigion sy'n werth £9.33 miliwn. Disgwylir i'r prosiectau hyn greu 986 o swyddi a diogelu 877 o swyddi.

## 4.8 Trafnidiaeth Integredig a Chynaliadwy

Cyflawnwyd prosiectau trafndiaeth yn unol â'r cynlluniau yn 2012-13. Pan ddaeth cyllid ychwanegol ar gael yn yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau ehangach, gwnaethpwyd buddsoddiad pellach mewn trafndiaeth. Mae hyn wedi galluogi i nifer o brosiectau awdurdodau lleol gael eu cwblhau neu eu dwyn ymlaen, ynghyd â buddsoddiad sylweddol yng ngweithrediad effeithiol a'r gwaith o gynnal a chadw rhwydwaith y cefnffyrdd.

## **Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol**

Fel y nodwyd yn y llythyr dyddiedig 7 Tachwedd 2014 a oedd yn ymateb i argymhellion y Pwyllgor, mae swyddogion yn cynnal gwerthusiad o weithgarwch cynllunio trafndiaeth cenedlaethol a rhanbarthol. Rhoddir diweddariad erbyn y Pasg 2014.

Y newid allweddol wrth ddatblygu trefniadau newydd er mwyn ariannu gwasanaethau bws oedd dwyn ynghyd y cyllid ar wahân a delir i weithredwyr ac awdurdodau lleol o fewn un ffrwd ariannu sengl, gan sicrhau ei fod yn cael ei wario yn y manau lle y byddai'n cael yr effaith fwyaf. Gofynnodd y Gweinidog ar y pryd i'r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol i weinyddu'r trefniadau ariannu newydd ac i ddatblygu strategaethau rhanbarthol a fyddai'n nodi llwybrau allweddol.

Roedd fy Natganiad Llafar i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddiweddar yn amlinellu'r camau nesaf o ran cyllido gwasanaethau bws.

### **Tocynnau teithio rhatach ar fws**

Er sawl mis, mae swyddogion wedi bod yn trafod amodau trefniant ad-dalu newydd o 1 Ebrill 2014 gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol a'r diwydiant bysiau. Roedd hyn yn dilyn adolygiad annibynnol o'r trefniadau ad-dalu presennol, a oedd yn nodi bod gweithredwyr yn cael eu talu ormod.

### **Trafnidiaeth gymunedol**

Yn aml, mae trafndiaeth gymunedol yn ddewis amgen addas i wasanaethau bws confensiynol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu anghysbell. Mae cymorth parhaus ar gyfer trafndiaeth gymunedol, a'r broses o fonitro gwasanaethau, yn cael ei ddarparu gan y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol yng Nghymru i ddatblygu a chryfhau'r sector trafndiaeth gymunedol.

### **Cydymffurfiaeth bysiau**

Mae gofyn i weithredwyr bysiau gofrestru manylion eu gwasanaeth gyda'r Comisiynydd Traffig. Mae gan y Comisiynydd bwerau i osod cosbau ariannol ar weithredwyr nad ydynt yn llwyddo i gydymffurfio gydag amodau eu cofrestriad, ond mae'n dibynnu ar gyfeiriadau a wneir iddo os yw'n mynd i ystyried camau o'r fath. Telir unrhyw "ddirwyon" o'r fath i Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Bus Users UK yng Nghymru i gyflogi tri Swyddog Cydymffurfiaeth Bysiau amser llawn, y mae eu cyfrifoldebau yn cynnwys monitro gwasanaethau bws ar ein rhan. Fel hyn, pan fydd Defnyddwyr Bysiau neu awdurdodau lleol neu Lywodraeth Cymru yn dod yn ymwybodol o fethiannau ar ran gweithredwr bysiau i redeg gwasanaethau yn unol â'i gofrestriad, byddwn yn gofyn i'r Swyddogion Cydymffurfiaeth Bysiau i wneud gwaith monitro er mwyn cadarnhau'r ffeithiau. Yna, adroddir y canfyddiadau hynny i'r Comisiynydd Traffig ar gyfer ei adolygiad.

Mae'r Comisiynydd Traffig wedi gwneud sylwadau ffafriol iawn am weithgareddau'r Swyddogion Cydymffurfiaeth Bysiau ac effaith gadarnhaol eu gwaith ar brydlondeb a dibynadwyedd gwasanaethau bws yng Nghymru.

### **Bus Users UK yng Nghymru**

Mae gan Bus Users UK swyddfa a thri aelod o staff yng Nghymru. Mae'r sefydliad yn darparu cymorth gwerthfawr dros ben i weithredwyr bysiau, awdurdodau lleol ac eraill yn lleol er mwyn sicrhau bod buddiannau teithwyr bws yn cael eu cynrychioli mewn ffordd effeithiol.

Yn ogystal, mae Bus Users yn cyfrannu mewn ffordd hynod o effeithiol at ddatblygiad polisi, gan gynrychioli teithwyr sy'n cwyno am eu gwasanaethau bws.

Mae Bus Users yn trefnu ac yn cynnal hyd at 20 o gymorthfeydd i deithwyr bws bob blwyddyn ar draws Cymru, er mwyn galluogi teithwyr i gael cyfarfod wyneb yn wyneb gyda gweithredwyr bysiau ac awdurdodau lleol.

Yn ddiweddar, mae Bus Users UK wedi cytuno ymuno â'r Panel Cyngori Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus newydd, a fydd yn cynghori'r Gweinidog ynghylch materion ar gyfer defnyddwyr trafniadaeth gyhoeddus.

### **Teithio Llesol a Chynaliadwy**

Yn 2012-13, ariannwyd amrediad o fentrau er mwyn datblygu seilwaith teithio llesol ac er mwyn annog pobl i ddefnyddio ffurfiau teithio llesol a chynaliadwy.

Cafodd cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau £5.2m, a bu hyn yn fodd o alluogi amrediad o welliannau o ran diogelwch a hygyrchedd cymunedau ar draws Cymru wrth gerdded neu feicio.

Buddsoddwyd £1.1m yn y prosiect cynlluniau teithio personol. Gan ganolbwyntio ar gymunedau yng Nghaerdydd a De Cymru, bu'r rhaglen hon yn darparu cyswllt 1:1 a gwybodaeth wedi'i theilwra ynghylch dewisiadau teithio cynaliadwy mewn cymunedau. Mae'r canlyniadau cynnar yn addawol ac mae'r contractwr yn paratoi dadansoddiad mwy manwl o'r cam cyntaf.

Yn ogystal, mae'r prosiect hwn yn cynorthwyo gwaith gydag ysgolion a busnesau, ac mae wedi arwain at ddatblygu offerynnau a deunyddiau y mae modd eu defnyddio yn fwy eang. Mae'r prosiectau eraill a gynorthwywyd yn cynnwys Beiciwch Hi.

### **Gwasanaethau Trên**

Yn 2012-13, gwelwyd Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu masnachfaint Cymru a'r Gororau a weithredir gan Drenau Arriva Cymru. Dyfarnwyd y contract yn 2003 ac mae'n para am 15 mlynedd. Ym mis Ebrill 2006, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros reolaeth y fasnachfaint o ddydd i ddydd o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru.



Yn ychwanegol i'r fasnachfrait graidd a nodwyd yn wreiddiol, roedd cyllid Llywodraeth Cymru yn ystod 2012-13 yn cynnwys cymorth ar gyfer nifer o wasanaethau ychwanegol. Roedd y rhain yn cynnwys darparu capasiti ychwanegol ar Reilffyrdd y Cymoedd, Cambrian a Lein y Gororau, gwasanaeth mwy aml ar sawl rheilffordd (e.e. Rheilffordd Merthyr, Ilwybr Caerdydd-Caerdybi, Llinell Calon Cymru a Lein y Gororau) a chynllun tocynnau teithio rhatach ar y rheilffyrdd.

Nodir manylion y blaenoriaethau ar gyfer rheilffyrdd yn y dyfodol a'u cyfraniad at ddatblygu economaidd ehangach yn y Datganiad Ysgrifenedig sy'n ddyddiedig 18 Gorffennaf 2013, a ddarparwyd i'r Pwyllgor fel rhan o ddiweddariad am faterion trafndiaeth yn y llythyr dyddiedig 9 Hydref 2013.

## **5.0 Cyllid Cymru**

Rydych wedi gofyn am wybodaeth ynghylch Cyllid Cymru. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Cyllid yn cynnal ymchwiliad ynghylch Cyllid Cymru ar hyn o bryd. Byddaf yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar ôl i hwn gael ei gwblhau.

## **6.0 Ymrwymadau Trawsadrannol**

### **6.1 Trechu Tlodi**

Mae gan yr Adran rôl bwysig i'w chyflawni wrth helpu i drechu tlodi, ac mae ein prif ddylanwad yn deillio o ymdrechion i annog a chynorthwyo gweithgarwch cadw a chreu cyflogaeth ar draws Cymru. Rydym yn canolbwyntio ar drechu tlodi trwy ddiogelu swyddi, creu cyfleoedd cyflogaeth a gwella'r amodau cyffredinol i fyd busnes, gan gydnabod bod cyflogaeth yn cynnig lefel ddiogelu uchel yn erbyn tlodi.

Mae'r Adran yn datblygu nifer o gamau gweithredu sy'n cynorthwyo ymdrechion Llywodraeth Cymru i drechu tlodi, ac mae cyllideb Adrannol sylweddol wedi cael ei neilltuo i'r gweithgareddau hyn. Mae hyn yn cynnwys cyllid er mwyn:

- darparu Cronfa Twf Economaidd Cymru a chynlluniau cyllid busnes a grantiau creu swyddi eraill;
- darparu grantiau cychwyn busnes a chynngor a chymorth ynghylch entrepreneuriaeth;
- datblygu a thyfu'r farchnad gofal plant;
- datblygu gweithgarwch mentrau cymdeithasol; a
- chyflawni ein rhaglen Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol.

Yn ogystal, mae trechu tlodi wrth wraidd rhaglenni a pholisi trafndiaeth. Mae trafndiaeth yn faes gwariant arwyddocaol i nifer o aelwydydd ac mae'r ffaith bod cost tanwydd a thrafnidiaeth gyhoeddus yn codi yn rhoi pwysau ychwanegol ar aelwydydd.

Mae hyn yn golygu bod modd i hyrwyddo system trafndiaeth fforddiadwy, hygyrch ac effeithiol wneud gwahaniaeth ymarferol go iawn i bobl. Yn ogystal,

mae modd i gysylltedd trafniadaeth da ei gwneud yn haws i bobl fanteisio ar swyddi a hyfforddiant, yn ogystal â manteisio ar wasanaethau eraill. Mae cyllideb arwyddocaol wedi cael ei hymrwymo yn ein portffolio o brosiectau trafniadaeth, gan gynnwys y Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach.

## 6.2 Datblygu Cynaliadwy

Ein nod yw cyflawni blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu ar gyfer Swyddi a Thwf, gan ganolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol. Rydym yn datblygu dull gweithredu polisi twf gwyrdd er mwyn datblygu ein gwaith presennol ynghylch datblygu cynaliadwy a thwf economaidd. Bydd hyn yn gweithredu, yn rhannol, fel paratoad ar gyfer cyflwyno Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n cyd-fynd gyda'n dull gweithredu tuag at greu'r amodau dros y tymor hir ar gyfer economi cynaliadwy a ffyniannus, sy'n defnyddio lefelau isel o garbon ac sy'n defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon, ac sy'n gyfiawn ar lefel gymdeithasol.

Rydym yn gweithio gyda Chyngor Adnewyddu'r Economi a'r Comisiynydd Newid Hinsawdd dros Ddyfodol Cynaliadwy, gan ystyried rôl twf gwyrdd yng Nghymru fel ffordd o sicrhau ffyniant a thwf economaidd hirdymor.

Rydym yn ceisio nodi camau gweithredu cynnar er mwyn cynnwys arfer twf gwyrdd ar gyfer yr economi gyfan. Byddwn yn defnyddio'r dull gweithredu hwn er mwyn dylanwadu ar y broses o neilltuo Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, a byddwn yn gweithio gydag amrediad o randdeiliaid ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector er mwyn cysylltu mentrau polisi. Byddwn yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y defnydd a wneir o'r ysgogiadau sydd ar gael er mwyn pennu cwrs ar gyfer ffyniant economaidd cynaliadwy hirdymor i Gymru.

## 6.3 Yr Iaith Gymraeg

Caiff Adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd ei gyhoeddi yn y man.

Yn ogystal, mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Dyffryn Teifi, a sefydlwyd ar 15 Mehefin 2013, wedi archwilio model yr ardal dwf leol er mwyn asesu ymyriadau sy'n sensitif i amgylchiadau economaidd lleol y Dyffryn, y sialensiau o ran twf ar ei chyfer a'r defnydd amlwg o'r iaith Gymraeg. I weld yr adroddiad, ewch y wefan Llywodraeth Cymru:

<http://cymru.gov.uk/topics/businessandconomy/publications/teifivalleyreport/?skip=1&lang=cy>

Mae'r rhain yn adolygiadau pwysig ac ystyrir yr argymhellion ymhellach wrth ddatblygu polisi ar gyfer y dyfodol a pharhau i fod yn ymatebol i unigolion a'r gymuned fusnes ehangach. Mae holl brosiectau Cronfeydd Strwythurol UE yn integreiddio thema trawsbynciol cyfle cyfartal, a'r iaith Gymraeg, yn eu gweithrediad er mwyn cyfrannu at y gwaith o sicrhau economi gytbwys, gynaliadwy ac arloesol.

Ar hyn o bryd, ni cheir cyllideb ddynodedig ar gyfer yr iaith Gymraeg gan ei bod yn cael ei hystyried ac yn cael ei chynnwys fel rhan annatod o'r gwaith o gyflawni prosiectau unigol, rhaglenni, cymorth i fusnesau a digwyddiadau unigryw. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, bu'r Adran yn darparu hyfforddiant ynghylch cyd-destun diwylliannol a hanesyddol yr iaith Gymraeg. Mae hyn yn galluogi staff i osod cyd-destun ar gyfer yr angen i ystyried yr iaith Gymraeg yn ein gwaith. Gwnaethpwyd buddsoddiad o oddeutu £40,000.

**Ymrwymïadau yn ymwneud â'r Economi a Gwyddoniaeth yn y Rhaglen  
Lywodraethu (ym Medi 2013 a'i ddiweddarau i gynnwys datblygiadau cyfredol)**

Ymrwymïad	Cynnydd
<p>Er mwyn i gwmnïau a busnesau ffynnu a thyfu, adeiladu ar y berthynas newydd sydd gan Lywodraeth Cymru gyda'r gymuned fusnes a'n partnerïaid cymdeithasol a chreu fframwaith ac amodau hyblyg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Cyngor Adnewyddu'r Economi a'r gweithgor swyddogion wedi'u sefydlu. Cynhelir cyfarfodydd arbennig i drafod rhai pynciau polisi penodol megis ardrethi busnes.</li> <li>• Yn ychwanegol, bydd gweinidogion yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r gymuned fusnes a'n partnerïaid cymdeithasol ynghylch materion sy'n ymwneud â galluogi busnesau i greu swyddi.</li> <li>• Mae paneli dan arweiniad y Sector Preifat wedi darparu cyngor ynghylch hybu swyddi a thwf, datblygu dinas-ranbarthau, ardaloedd menter ac ardrethi busnes.</li> </ul>
<p>Cynorthwyo cwmnïau o ansawdd sy'n perfformio'n dda ym mhob rhan o'r economi all greu swyddi, cyfoeth a Chymru gynaliadwy.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Gwasanaeth Busnes Cymru yn weithredol ers 2 Ionawr 2013. Lanswyd gwefan Gwerthwchi Gymru ym Mehefin 2013 ac mae'n cynnig amrywiaeth gynyddol o wasanaethau a gwybodaeth ddefnyddiol i brynwyr a chyflenwyr.</li> <li>• Cymorth buddsoddi parhaus a ddarperir gan Gronfa Fuddsoddi BBaChau Cymru gwerth £40m; Cronfa Twf Economaidd Cymru, hyd at £100m Cronfa Gwyddorau Bywyd Cymru a'r Gronfa Fenthyciadau i Ficrofusnesau gwerth £6m. Y Gronfa Datblygu Eiddo gwerth £10m a lanswyd ym Mai 2013.</li> </ul>
<p>Datblygu cysylltiadau strategol, buddiol a chryf gyda chwmnïau angori pwysig a'u gwneud yn ganolog i Economi Cymru trwy ddatblygu cysylltiadau agos gyda'n sefydliadau addysg bellach ac uwch a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r gadwyn gyflenwi yn eu cynnig.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae rhestr o'r 38 cwmni angori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn <a href="http://wales.gov.uk/topics/businessandconomy/economicrenewal/programmepapers/anchor/?lang=cy">http://wales.gov.uk/topics/businessandconomy/economicrenewal/programmepapers/anchor/?lang=cy</a></li> <li>• Mae gweithdrefnau rheoli cyfrifon ffurfiol yn eu lle ar gyfer cwmnïau angori unigol.</li> <li>• Mae rhaglen beilot o weithgareddau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant wedi cael ei redeg ar y cyd â rhai cwmnïau. Bydd canlyniadau'n llywio digwyddiadau'r dyfodol.</li> </ul>
<p>Gweithio gyda Masnach a Buddsoddi y DU (UKTI) ac eraill i hyrwyddo cyfleoedd masnachu a buddsoddi trwy deithiau masnach wedi'u targedu a swyddfeydd dramor.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dengys ffigyrau UKTI y bu cynnydd o tua 191% yn nifer y prosiectau mewnfuddsoddi yng Nghymru o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.</li> <li>• Cynhelir rhaglen o dros 40 taith masnach ac arddangosfa mewn 20 a rhagor o farchnadoedd tramor yn ystod 2013/14.</li> </ul>

Ymrwymiad	Cynnydd
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymeradwywyd cais tender Arkenford i gynhyrchu adroddiad ar dwristiaeth sgrin yng Nghymru. Mae hyn yn ymwneud â gwaith a wneir gan Croeso Cymru mewn partneriaeth ag Uwch Ranbarth Twristiaeth sy'n arwain ar y gwaith.</li> </ul>
